**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousingi@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Delyth Jewel AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

2 Chwefror 2024

Annwyl Delyth

Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): adran 20

Fel y gwyddoch, mae ein Pwyllgor ar hyn o bryd yn cynnal gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

Ar 31 Ionawr 2024 cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y darpariaethau yn adran 20 o'r Bil, a fyddai'n disodli'r gofyniad ar awdurdodau lleol i gyhoeddi manylion yn ymwneud â'r dreth gyngor mewn papurau newydd lleol, gyda dyletswydd newydd i gyhoeddi hysbysiadau'r dreth gyngor yn electronig. Trefnwyd ein sesiwn mewn ymateb i nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gawsom yn ymwneud yn benodol ag adran 20. Roedd y tystion ar ein panel yn cynnwys cynrychiolwyr o Newsquest, Reach plc a Wrexham.com. Roedd eu barn ar y ddarpariaeth yn y Bil yn gymysg, ac roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys y cyfeiriad teithio posibl yn y dyfodol ar gyfer hysbysiadau cyhoeddus yn fwy eang, a'r effaith andwyol bosibl ar ddemocratiaeth leol, cymunedau gwybodus, a hyfywedd gwasanaethau newyddion lleol o ganlyniad i'r refeniw a ellid ei golli wrth beidio â chyhoeddi hysbysiadau o'r fath mwyach.

O ystyried ei berthnasedd i'ch cylch gwaith, cytunwyd i dynnu eich sylw at y drafodaeth. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor.

Yn gywir

John Griffiths MS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament